WG35.5-67

# GALAREB

I'R DIWEDDAR BARCH.

# JOHN GRIFFITHS,

## LLANWRTYD.

*Bu Farw Gorphenaf* 12*fed*, 1869, *yn* 48 *mlwydd oed.*

---

LLANWRTYD:

AR WERTH GAN THOMAS LEWIS, LLYFRWERTHYDD.

X205309398

# GALAREB.

Tra yma yn rhodio trallodau a gwrddaf,
  Paham y dysgwyliaf fyn'd drwy'r byd yn llon?
Ni chlywais am undyn a rodiodd y dyffryn,
  Na theimlodd ar brydiau ryw frath dan ei fron;
Ac wele un eto! pwy wna fy nghysuro?
  Nes ail ddwyn llawenydd i liwio fy ngrudd,
Pan gofiwyf mai huno mae Griffiths, fy nghyfaill,
  Dymuno 'rwyf weithiau am fod yn y pridd.

O Griffiths! gofynaf paham yr e'st ymaith,
  A'm gadael mewn hiraeth tra paro fy oes?
Ond da genyf gofio yn nghanol fy wylo,
  Fod llu'n cydymdeimlo a mi yn fy loes;
Pe gallem ni'th nofiem a'n dagrau i fyny,
  Er mwyn cael dy gwmni a gweled dy wedd;
Ond dyna, gwell tewi, a gadael it' gysgu,
  Waeth nid, Mr. Griffiths sydd 'nawr yn y bedd.

Er iddo ymado a'n gadael i wylo,
  Mae'i enw da eto mor fyw ag erioed,
Yn siarad mor groew am fyw erbyn marw,
  A'r pwys ini gyrchu yn lew "at y nod;"
Fe gofir ei eiriau yn y cyfeillachau,
  Pa rai oedd fel diliau i bawb f'ai ynghyd;
Pan yr ymadawodd fe deimlwyd y golled,
  Mae dagrau ar ruddiau yr eglwys a'r byd.

'Rwy'n cofio am dano pan yn yr areithfa,
  Pregethai yn wrol, dyrchafai ei lais,
Cynghorai'r pechadur i ddyfod at Iesu,
  "Cyn del dydd digofaint," hyn ydoedd ei gais;
Pan rodiai ef allan ar hyd yr heolydd,
  'Roedd pawb fel eu gilydd yn edrych yn syn,
A phob annuwiolddyn a deimlai yn sydyn,
  Fod cyfaill i'r Iesu yn pasio'r pryd hyn.

Pan ddeuai cenfigen a malais i'r eglwys,
  'Doedd neb yn fwy cymhwys i'w gael nag efe
I leddfu'r ymrafael a'u dwyn oll yn dawel,
  A chael yr holl eglwys yn hollol i'w lle;
Siariadai yn wrol gan dd'wedyd, "O bobl!
  Paham na chydunwch wrth fyned i'r ne',
Os na ellwch faddeu cyn lleied o bethau,
  Rhaid d'wedyd yn groew nid dyma eich lle!"

Pwy bynag fu'n eisiau o'r cyrddau bob amser,
  Dan bob rhyw amgylchiad, presenol oedd e',
Er gwaethaf pob stormydd canlynai ei Arglwydd,
  Fel bugail a Christion fe gadwai ei le;
Pan godai i fyny fel cawr i'r areithfa,
  'Roedd pob dyn yn gwledda ar synwyr a dawn,
Diolchai yn gynhes fod gobaith am loches,
  A modd i ddyn ddianc trwy rinwedd yr Iawn.

Un selog oedd Griffiths dros gadw dysgyblaeth,
  A phuro yr eglwys mewn moesau a dysg,
Er amled eu nifer, yr hyn ni wnai llawer,
  Adwaenai bob aelod ag oedd yn eu mysg;
Cynghorai'r ieuengtyd i fyw bywyd sobr,
  Gan ffurfio'u cymeriad yn moreu eu hoes,
Mai gwell oedd aberthu os rhaid oedd gwneyd hyny,
  Wrth ganlyn yr Iesu a chario ei groes.

Nid tynu rheolau i eraill wnai Griffiths,
  A chyfrif ei hunan tu allan i'w rhaith,
Na! na, fe siariadai trwy fywyd a buchedd,
  Yr hyn sydd bob amser yn gryfach nac iaith;
Pan f'asai yn siarad ar dân 'roedd ei deimlad,
  Yn canmol y cariad ddangosodd y Tad,
Wrth garu, a phrynu, a golchi, a chanu,
  A gwneuthur y cyfan i'r euog yn rhad.

Ond er mor ddefnyddiol daeth angeu i'w lety,
  I ddatod ei beiriant a'i dynu yn rhydd,
Ni ildiai er hyny, ac ni ro'i i fyny,
  Ynghanol dihoeni, cryfhau 'roedd ei ffydd;
A phan ddaeth y gelyn a'i ddyrnod diweddaf,
  Fe dd'wedai yn eglur, "Gorphena dy waith,
'Rwy'n foddlon ymddatod a myned i'r beddrod,
  Er hyny ni ellir cyfnewid fy iaith."

Moriah a'r G'lynos arwisgwyd mewn galar,
  Waith colli un hawddgar o fywyd i fedd,
Ceir meddwl, a siarad, a chofio am dano,
  Ond byth mewn cyfeillach ni welir ei wedd;
Maddeuer, gan hyny, i'r prydydd am wlychu
  Ei feddrod a'i ddagrau wrth godi ei ben,
Mewn gobaith cawn gwrddyd yn ddiogel mewn gwyn-
    fyd,
  Ar wedd yr Anwylyd y tu draw i'r llen.

*Llanwrtyd.* IOAN TREFLYS.

---

LLANIDLOES, ARGRAFFWYD GAN JOHN PRYSE.